# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## ASTUDIO'R CYFRYNGAU
## UG/UWCH

### IONAWR 2013

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Ionawr 2013 TAG Astudio'r Cyfryngau.  Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.


| | **Tudalen** |
|---|---|
| MS1 | 1 |
| MS4 | 6 |


© WJEC CBAC Cyf.

# Astudio'r Cyfryngau Uwch Gyfrannol/Uwch
# MS1: Cynrychioliadau ac Ymatebion

## MS1: Cynllun Marcio Generig (Cwestiwn 1)

***Cwestiwn 1***

| **Lefel** | ***AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac wrth werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-15** | Golwg arwynebol ar y testunau ar lefel synnwyr cyffredin. Diffyg canolbwyntio ar y testun. Disgrifiadol yn hytrach na dadansoddol. Rhywfaint o honni heb ei ategu neu amherthnasedd. Diffyg rhuglder. Heb fod wedi'i seilio ar wybodaeth neu ddealltwriaeth o'r cyfryngau. |
| **Lefel 2: 16-23**<br><br>**(16-19)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd teimlad sylfaenol o sut caiff ystyron eu creu er y gall fod rhywfaint o ymgais i ddadansoddi nodweddion allweddol. Rhywfaint o adnabyddiaeth o gynodiadau ond tuedd i orfanylu ar y syml.<br><br>Disgrifiadol. |
| **(20-23)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu i ddadansoddi. Adnabyddiaeth o gynodiadau a chynrychioliadau ond heb ei datblygu. Dealltwriaeth o sut mae testunau'n creu ystyron. Tuedd i ddisgrifio. |
| **Lefel 3: 24-31**<br><br>**(24-27)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth gadarn o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu cadarn i ddadansoddi. Amgyffrediad cadarn o gynodiadau. Ar y lefel hon, gwneir pwyntiau, gan ddefnyddio termau priodol y cyfryngau. Safbwynt unigol yn dechrau dod i'r amlwg. |
| **(28-31)** | Ar ben uchaf y lefel, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o destunau a chonfensiynau cyfryngol ynghyd â gallu da i ddadansoddi. Defnydd hyderus o dermau'r cyfryngau a dadl wedi'i strwythuro'n dda, o bosibl yn tynnu ar wahanol ddulliau. Archwilio syniadau i roi dehongliad dilys o'r testun wedi'i ategu'n briodol. |
| **Lefel 4: 32-40** | Dadansoddi soffistigedig a chraff, yn dangos dealltwriaeth drylwyr o ddangosyddion a thechnegau allweddol. Mynegir syniadau cymhleth yn gydlynol. Ymwybyddiaeth o natur aml ystyr testunau gydag adnabyddiaeth bosibl o'r ideolegol. Tystiolaeth o drosolwg. Defnydd wedi'i ddatblygu'n dda o dermau'r cyfryngau. |

© WJEC CBAC Cyf.

**MS1: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn**

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i farcwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

Mae'r cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn yn darparu pwyntiau y gall ymgeiswyr gyfeirio atynt yn eu hatebion. Rhaid ei ***ddefnyddio ar y cyd â'r grid perthnasol.*** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. ***Rhaid*** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail teilyngdod. Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â Chwestiynau 2 a 3 ac mae canolfannau yn debygol o fod wedi astudio amrywiaeth o enghreifftiau gwahanol. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

**Astudiwch yr olygfa agoriadol o ddrama hanesyddol y BBC *Great Expectations* (BBC, 2011). Mae hon yn dangos bachgen ifanc sy'n cael ei orfodi i helpu carcharor sydd wedi dianc.**

**1. Dadansoddwch y darn gan roi sylwadau am y canlynol:**

- **codau gweledol**
- **codau technegol a chlywedol**
- **confensiynau *genre*.** **[40]**

**Codau gweledol**
- defnyddio lliwiau tawel
- dillad yn awgrymu *genre* drama wisgoedd
- eiconograffeg
- lleoliad yn awgrymu unigedd
- edrychiad – ofn a bygwth

**Codau technegol a chlywedol**
- cerddoriaeth sinistr yn cynyddu tensiwn
- deialog yn sefydlu naratif
- ansawdd sinematig y ffilmio
- amrywiaeth o saethiadau – lluniau lleoli o'r corsydd, agosluniau o edrychiadau wynebol
- golygu

**Confensiynau *genr*e**
- lleoliadau yn nodweddiadol o ddrama (hanesyddol)
- gwisgoedd yn awgrymu drama hanesyddol
- cymeriadau yn nodweddiadol o ddrama (bachgen ifanc diniwed/hawdd ei frifo, person drwg)
- sefydlu'r person drwg – golwg â'r bwriad o ddychryn
- defnyddio acen a deialog i sefydlu rolau
- dechreuad naratif yn codi enigmâu yn nodweddiadol o ddrama.

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2 (a) Awgrymwch *ddwy* gynulleidfa wahanol ar gyfer y ddrama hon gan y BBC. Rhowch resymau byr dros eich awgrymiadau. [6]**

**Gall awgrymiadau gynnwys: *Great Expectations***

- cefnogwyr Dickens
- cefnogwyr Ray Winstone
- gwylwyr teyrngar y BBC - disgwyliadau o safon
- pobl sydd â didddordeb mewn drama wisgoedd
- pobl a berswadiwyd gan raghysbysebion ayb. am y rhaglen.

Ar gyfer **pob** cynulleidfa a awgrymir:

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1)** | Yn awgrymu cynulleidfa gredadwy. |
| **Lefel 2 (1-2 ychwanegol ar gyfer pob cynulleidfa)** | Yn disgrifio pob cynulleidfa yn fwy manwl. Sylwer: dylai'r ail gynulleidfa a awgrymir fod yn **wahanol** i'r gynulleidfa gyntaf a awgrymir. |

**(b) Archwilwch sut mae'r olygfa agoriadol hon yn apelio at *un* o'r cynulleidfaoedd hyn. [9]**

**Mae apeliadau yn cynnwys**

- adnabod cymeriadau
- triniaeth draddodiadol ond sinematig
- gwerthoedd cynhyrchu
- dechreuad dramatig
- rôl wahanol i Ray Winstone
- dangosiad o'r naratif.

| | |
|---|---|
| **Lefel 1: 0 – 2** | Bydd y dulliau'n arwynebol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol iawn yn unig o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa. |
| **Lefel 2: 3 - 4** | Bydd yr ateb yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol ond perthnasol o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa. |
| **Lefel 3: 5 – 7** | Dealltwriaeth gydlynol, gadarn o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa (5).<br>……………………………………………………………………………….<br>Bydd dealltwriaeth dda yn cael ei dangos ar gyfer rhan uchaf y lefel hon (6-7). |
| **Lefel 4: 8 - 9** | Dealltwriaeth soffistigedig o sut mae'r olygfa agoriadol yn apelio at y gynulleidfa. |

© WJEC CBAC Cyf.

**(c)** **Gan gyfeirio at *eich enghreifftiau manwl eich hun*, archwiliwch sut mae cynulleidfoedd yn cael eu categoreiddio gan gynhyrchwyr testunau cyfryngol.** **[15]**

**Efallai y bydd atebion yn ymdrin â'r canlynol:**

- proffilio demograffig
- oedran
- rhyw
- proffilio seicometrig
- 4 C Young a Rubicam
- enghreifftiau eraill.

Rhaid i'r pwyntiau hyn gael eu trafod gan gyfeirio at 2/3 enghraifft fanwl

| **Lefel** | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-5** | Fawr ddim neu ddim teimlad o gysyniad o gynulleidfa. |
| **Lefel 2: 6-8**<br>**(6)** | Dealltwriaeth sylfaenol o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Disgrifiadol ac wedi'i symleiddio'n ormodol. |
| **(7-8)** | Dealltwriaeth o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr yn dod i'r golwg ond heb ei datblygu. Gall fod cyfeiriadau ymhlyg at ddadleuon beirniadol ynghylch cynulleidfa/defnyddwyr. Ni chyfeirir at enghreifftiau penodol. |
| **Lefel 3: 9-12**<br>**(9-10)** | Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Gall ddechrau dyfynnu materion, damcaniaethau neu ddadleuon perthnasol sy'n ymwneud ag ymateb cynulleidfa/defnyddwyr. |
| **(11-12)** | Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Cyfeirio perthnasol at faterion sy'n ymwneud ag ymateb cynulleidfa/defnyddwyr ac sydd wedi'u cysylltu ag amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Ymwybyddiaeth o ddamcaniaethau perthnasol, dadleuon newidiol, safbwyntiau a dulliau gwahanol. |
| **Lefel 4: 13-16** | Dealltwriaeth soffistigedig o gynulleidfa/ddefnyddwyr. Mae'n tynnu ar faterion a dadleuon sy'n ymwneud ag ymateb cynulleidfa/defnyddwyr ac mae'n mynd i'r afael â materion damcaniaethol perthnasol gan ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau sydd wedi'u dewis yn dda. |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 Gan gyfeirio at *eich enghreifftiau manwl eich hun*, archwiliwch gynrychioliad pobl ifanc yn y cyfryngau heddiw. [30]**

- Rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio 2/3 enghraifft benodol o sut mae testunau cyfryngol yn cynrychioli pobl ifanc a'u dadansoddi nhw yn fanwl gan ganolbwyntio ar gysyniad cynrychioliad.

- Mae disgwyl y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y lefelau uchaf yn dangos dealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad ac yn gallu angori eu hengreifftiau dewisol o ran cyd-destun a phwrpas.

- Dylai'r enghreifftiau dewisol gael eu dadansoddi â thipyn o fanylder a rhaid i'r ymgeiswyr mwy galluog fynd i'r afael â nhw ar lefel fwy soffistigedig sy'n mynd y tu hwnt i ddisgrifiadau neu honiadau syml o gadarnhaol a negyddol.

- Rhaid i'r enghreifftiau a ddefnyddir fod yn gyfoes er mwyn adlewyrchu cynrychioliad pobl ifanc 'yn y cyfryngau heddiw'.

| **Lefel** | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-11** | Dadl arwynebol. Yn dibynnu'n drwm ar ddisgrifio. Diffyg enghreifftiau priodol. Fawr ddim tystiolaeth o ddealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad. |
| **Lefel 2: 12-17**<br>**(12-14)**<br><br>**(15-17)** | Ymgais sylfaenol i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Golwg syml ar destunau. Diffyg dyfnder a datblygiad.<br>……………………………………………………………………………………….<br>Teimlad o gysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Gall y dulliau fod yn rhy ddisgrifiadol. Gall yr ateb fod wedi'i gyfyngu i'r deunydd ysgogi heb ddim enghreifftiau eraill. Ni chyfeirir at enghreifftiau penodol. |
| **Lefel 3: 18-23**<br>**(18-20)**<br><br>**(21-23)** | Dealltwriaeth gadarn o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Ymgais cadarn i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau gan ddefnyddio enghreifftiau priodol. Bydd syniadau gweddol gymhleth wedi'u mynegi'n glir gyda rhywfaint o dystiolaeth o ddehongliad personol.<br>………………………………………………………………………………………..<br>Dealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Archwiliad da o gysyniadau a dadleuon perthnasol y cyfryngau gan ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Yn debygol o dynnu ar wahanol ddulliau. |
| **Lefel 4: 24-30** | Dealltwriaeth soffistigedig o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad wedi'u cysylltu â meddwl a damcaniaethau cyfredol. Archwiliad hyderus o gysyniadau'r cyfryngau. Teimlad da o faterion a dadleuon ynghylch amrywiaeth eang o destunau cyfryngol. |

© WJEC CBAC Cyf.

Gan na ddefnyddir ffracisynau, noder mai *canllawiau* yn unig yw'r rhifau a ddefnyddir i gyrraedd lefelau ar gyfer y ddau Amcan Asesu a'u bod wedi'u rhoi mewn cromfachau sgwâr […]. Dylid penderfynu ar **farc terfynol** ymgeisydd **o fewn lefel** ar sail y **cyfanswm allan o 30** fel y nodir isod.

Gweler y grid marcio generig drosodd.

© WJEC CBAC Cyf.

| Lefel/Marciau | AA1<br>**Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a thrafodaethau beirniadol y cyfryngau** | AA2<br>**Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac wrth werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu** |
|---|---|---|
| **Lefel 1: 0-11** | Ymateb sylfaenol, synnwyr cyffredin. Dealltwriaeth arwynebol o'r testunau a astudiwyd a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r gynulleidfa. Mae manylion amherthnasol yn nodweddu'r ymateb.<br>[0-7] | Bydd y dadansoddiad yn wan ac â diffyg dyfnder, yn tueddu i fod yn gyffredinol heb unrhyw enghreifftiau i'w ategu.<br>[0-3] |
| **Lefel 2: 12-17**<br><br>**(12-14)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dechreuadau ymateb perthnasol ond bydd diffyg canolbwynt. Bydd gwybodaeth sylfaenol o'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad sylfaenol ond anghyson o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd unrhyw ddadansoddi yn debygol o fod wedi'i fynegi'n syml gan ddangos dealltwriaeth sylfaenol o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(15-17)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd safbwynt yn dod i'r amlwg a gall enghreifftiau gael eu defnyddio'n fwy perthnasol. Mae atebion yn debygol o fod yn fwy disgrifiadol.<br>[8-11] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd y dadansoddiad o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol) yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol. Bydd dealltwriaeth o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg.<br>[4-5] |
| **Lefel 3: 18-23**<br><br>**(18-20)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd ymateb cadarn sy'n dangos gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth o'r testunau a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r gynulleidfa. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad cadarn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd dealltwriaeth gadarn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg. |
| **(21-23)** | Ar ben uchaf y lefel hon, dangosir dealltwriaeth dda o destunau, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa drwy enghreifftiau perthnasol a manwl ynghyd â gwneud defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau.<br>[12-15] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br>[6-7] |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 4: 24-30**<br><br>**(24-26)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda iawn o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl ac yn dangos safbwynt. Gwneir defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad da iawn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth dda iawn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(27-30)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth soffistigedig o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl, yn gydlynol ac yn arwain at safbwynt wedi'i sefydlu'n dda. Gwneir defnydd priodol iawn o dermau perthnasol y cyfryngau.<br><br>[16-20] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dadansoddiad soffistigedig o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth soffistigedig o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br><br>[8-10] |

© WJEC CBAC Cyf.

## MS4: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn

**Noder**: ***Ar gyfer pob cwestiwn, bydd yr atebion yn ddibynnol ar y diwydiant a ddewisir.***

Bydd canolfannau wedi astudio diwydiannau gwahanol a defnyddio amrywiaeth o brif destunau gwahanol gyda'u hymgeiswyr. Cyfrifoldeb yr arholwr yw sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gywir o ran y wybodaeth ffeithiol a ddarparant ond cadw meddwl agored ynghylch y dulliau gwahanol y gall ymgeiswyr eu defnyddio i ymdrin â'r cwestiynau. Nid oes atebion cywir nac anghywir (ar wahân i fanylion ffeithiol) ac mae'n debygol y bydd amrywiaeth o atebion i'r cwestiynau – mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol. Disgwylir i ymgeiswyr gyfeirio at **dri** thestun ym mhob ateb ond ni ddisgwylir yr ymdrinnir yn gyfartal â'r testunau y cyfeirir atynt. *Os na fyddan nhw'n cyfeirio at dri thestun yn eu hateb gweler y nodyn isod ynghylch torri cyfarwyddyd.* Efallai na fydd yr ymgeiswyr gwannaf yn cyfeirio at dri thestun ac efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at fwy na thri – bydd angen marcio'r atebion hyn ar sail teilyngdod a rhoddir arweiniad pellach ynghylch yr atebion hyn yng nghyfarfod yr arholwyr.

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i farcwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

Mae'r cynllun marcio hwn sy'n benodol i'r cwestiwn yn cynnig pwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Rhaid ei **ddefnyddio ar y cyd â'r grid uchod*.*** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. **Rhaid** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail teilyngdod. Gan y bydd canolfannau wedi dewis amrywiaeth eang o destunau i'w hastudio, mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â'r cwestiynau. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

### Torri Cyfarwyddyd

Mae'n ofyniad ar gyfer yr uned hon bod ymgeiswyr yn cyfeirio at **dri** phrif destun ym mhob un o'u hatebion. Os bydd ymgeiswyr yn cyfeirio at **lai** na thri testun, gwneir yr addasiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cyfeirio at ddau destun** | - **3** |
| **Cyfeirio at un testun neu ddim testun** | - **5** |

Bydd y sylwadau sy'n cyfiawnhau'r marc ar ddiwedd yr ateb yn dangos yr addasiad, bydd clawr blaen y sgript yn dangos hynny hefyd.

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A: TESTUN

*Atebwch* **un** *cwestiwn o'r adran hon.*

1. **I ba raddau mae'r cynrychioliadau allweddol yn eich tri phrif destun yn ystrydebol? [30]**

Mae hwn yn gwestiwn eithaf agored sy'n caniatáu i ymgeiswyr ddewis yr hyn maen nhw'n ystyried yw meysydd allweddol cynrychioliad yn eu prif destunau. Cadwch feddwl agored ynghylch y dewis hwn ac yna chwiliwch am gydlyniad dadl o ran a ydynt yn ystrydebol neu beidio. Efallai y bydd ymgeiswyr y graddau uchaf yn trafod gwahaniaethau rhwng stereoteipiau a chynrychioliadau ac yn gwneud sylwadau am ideolegau gwaelodol. Gall pwyntiau yr ymdrinnir â nhw gynnwys cyfeirio at bwyntiau fel:

- Rhyw – rolau nodweddiadol ac ystrydebol
- Digwyddiadau a Materion
- Lleoedd
- Ethnigrwydd
- Cenedligrwydd
- Persbectifau damcaniaethol – er enghraifft Mulvey, Alvarado, Gauntlett

**2. Archwiliwch y confensiynau *genre* yn eich tri phrif destun. [30]**

Efallai na fydd ymgeiswyr y lefelau isaf yn gwneud dim mwy na disgrifio prif gonfensiynau *genre* eu tri phrif destun – mae hyn yn dderbyniol ond mae angen ei farcio ar sail teilyngdod. Dylai ymgeiswyr y lefelau uchaf fod yn delio â'r rhan 'archwiliwch' o'r cwestiwn. Mae pwyntiau yr ymdrinnir â nhw yn debygol o fod yn amrywiol ond gallan nhw gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Nodweddiadoldeb
- Arwyddwyr allweddol
- Eiconograffeg
- Cymeriadau
- Rhediadau stori, plotiau
- Lleoliadau
- *Mise-en-Scène*
- Defnyddio deialog, iaith, cerddoriaeth
- Defnyddio codau technegol.

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B: DIWYDIANT A CHYNULLEIDFA

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn o'r adran hon,* gan ddefnyddio diwydiant cyfryngau gwahanol ar gyfer pob un.

**1. I ba raddau mae sêr a/neu enwogion yn bwysig i hyrwyddo eich tri phrif destun? [30]**

Sylwch: mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â **hyrwyddo** testunau nid â'r testunau eu hunain. Er, ar gyfer y diwydiant hysbysebu, derbynnir hyrwyddiad cynnyrch. Mae angen i ymgeiswyr sy'n ysgrifennu am y testunau eu hunain yn hytrach nag am eu hyrwyddo gael eu marcio ar sail teilyngdod ond maen nhw'n debygol o fod yn hunan-gosbi. Bydd rhai ymgeiswyr yn dadlau nad yw sêr/enwogion yn bwysig i hyrwyddo eu testunau ond bod ffactorau eraill yn bwysig i hyn – mae hynny'n gwbl dderbyniol– chwiliwch am gydlyniad dadl.

Mae'r canlynol yn bwyntiau generig y gallai ymgeiswyr eu gwneud ar gyfer pob un o'r diwydiannau ond, yn gyffredinol, bydd atebion yn dibynnu ar y testunau a astudiwyd. Ni fwriedir i'r rhestri fod yn rhagnodol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TELEDU**:<br>Yn aml yn bwysig<br>* I'w gweld mewn rhaghysbysebion<br>* Wedi'u cynnwys mewn erthyglau mewn cylchgronau amserlenni teledu<br>* I'w gweld ar sioeau sgwrsio ayb<br>* Defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol e.e. *twitter*<br>* Gwefannau | **RADIO**:<br>(Efallai) yn llai tebygol o ddefnyddio sêr/ enwogion ar wahân i gyflwynwyr cerddoriaeth a all fod mewn rhaghysbysebion radio neu ar sioeau sgwrsio ar y teledu | **FFILM**:<br>Yn amlwg yn bwysig ar gyfer fflimiau'r brif ffrwd<br>• Rhaghysbysebion<br>• Posteri<br>• Cylchgronau<br>• Adolygiadau<br>• Sioeau sgwrsio<br>• Gwobrau<br>• Rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Gwefannau | **CERDDORIAETH**:<br>Yn amlwg yn bwysig<br>• Gwefannau (gwefannau swyddogol a gwefannau cefnogwyr)<br>• Fideos<br>• Rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Sioeau sgwrsio<br>• Cylchgronau |
| **PAPURAU NEWYDD**:<br>Gellir dadlau y naill ffordd neu'r llall yn dibynnu ar y papurau a astudiwyd.<br>Yn amlwg defnyddir enwogion ar lawer o dudalennau blaen i hyrwyddo'r papur. | **CYLCHGRONAU**:<br>Mae enwogion yn aml yn bwysig i gylchgronau ond bydd yr ateb yn dibynnu ar y cylchgronau a ddewisir.<br>• Cloriau blaen<br>• erthyglau ar-lein<br>• eu defnyddio mewn hysbysebion ar y teledu | **HYSBYSEBU**:<br>Mae ymgyrchoedd yn aml yn defnyddio sêr/enwogion i hyrwyddo cynhyrchion ond mae eraill yn defnyddio gwahanol dactegau a dyfeisiau perswadio fel<br>• Sioc<br>• Delweddau clyfar<br>• Iaith, cynllun gosod, dyluniad<br>• Enigmâu,<br>• Apeliadau seicolegol | **GEMAU CYFRIFIADUROL**:<br>Yn dibynnu ar y Gemau a astudiwyd. Mae rhai yn defnyddio enwogion yn eu hysbysebu. Ffyrdd eraill o hyrwyddo -<br>• Rhaghysbysebion<br>• Cylchgronau<br>• Llwyfannau<br><br>Defnyddio darnau o gemau |

© WJEC CBAC Cyf.

**2. Archwiliwch y gwahanol ffyrdd mae eich tri phrif destun yn targedu eu cynulleidfaoedd. [30]**

Bydd atebion yn dibynnu ar yr enghreifftiau a ddewisir a gallan nhw fod yn wahanol ar gyfer pob testun a drafodir. Mae'r mwyafrif o ymgeiswyr yn debygol o ateb y cwestiwn hwn gan ddefnyddio enghreifftiau a ddaw o'r testunau eu hunain a gall pwyntiau yr ymdrinnir â nhw gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Naratif
- *Genre*
- Cymeriadau
- Sêr/enwogion
- Iaith a dull cyfarch
- Codau gweledol, technegol a chlywedol
- Cysylltiadau â gwefannau

Fodd bynnag, efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn canolbwyntio eu hatebion ar y ffordd mae testunau'n cael eu marchnata i wahanol gynulleidfaoedd gan ddadlau bod hyn yn ffordd o'u targedu nhw.  Er mai'r diwydiant, nid y testun, sy'n targedu'r gynulleidfa fe wnawn ni dderbyn y dull hwn.  Gall pwyntiau yr ymdrinnir â nhw gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Rhaghysbysebion
- Erthyglau nodwedd mewn cylchgronau
- Gwefannau rhwydweithiau cymdeithasol

© WJEC CBAC Cyf.

**3. Archwiliwch y gwahanol ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn rhyngweithio â'ch tri phrif destun. [30]**

Efallai na fydd yr ymgeiswyr gwannach yn gwneud dim mwy na disgrifio'r ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn rhyngweithio â'u prif destunau ond dylai ymgeiswyr y graddau uchaf fod yn delio â'r rhan *archwiliwch* o'r cwestiwn. Yn gyffredinol mae cynulleidfaoedd yn rhyngweithio â thestunau drwy eu defnyddio a thrwy fanteisio ar gyfleoedd rhyngweithiol eraill. Gallai ymatebion cynulleidfaoedd hefyd gael eu hystyried yn rhan o ryngweithiad cynulleidfaoedd ac felly mae angen i ymgeiswyr sy'n defnyddio'r dull hwn gael eu marcio ar sail teilyngdod. Bydd atebion yn dibynnu ar y diwydiant a ddewisir a gall pwyntiau posibl gynnwys cyfeirio at y canlynol. Nid yw hyn yn rhestr gyflawn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TELEDU**:<br>• Trwy'r botwm coch<br>• Gwefannau<br>• Trwy *twitter*<br>• *Facebook* a gwefannau rhwydweithiau cymdeithasol eraill<br>• Cystadlaethau, cystadleuwyr,<br>• *Apps*<br>• Pleidleisio<br>• Cwynion<br>• Llythyrau | **RADIO**:<br>• Rhaglenni ffonio i mewn<br>• Cystadlaethau<br>• Gwefannau radio<br>• Hawl i ateb<br>• Trwy flogiau<br>• *Twitter*<br>• Cwynion | **FFILM**:<br>• Profiadau sinema<br>• Trwy wefan<br>• Trwy wefannau cefnogwyr<br>• Cyfryngau cymdeithasol e.e. *facebook*, *twitter*<br>• 3D<br>• *Apps*<br>• Cwynion | **CERDDORIAETH**:<br>• Trwy gyfryngau cymdeith-asol<br>• Trwy wefannau cefnogwyr<br>• Trwy gylch-gronau<br>• Mewn cyngherdd -au byw |
| **PAPURAU NEWYDD**:<br>• Gwefannau<br>• *Apps*<br>• Llythyrau<br>• *Twitter*<br>• *Facebook*<br>• Blogiau<br>• Cwynion | **CYLCHGRONAU**:<br>• Gwefannau<br>• Fforymau ar-lein<br>• Llythyrau<br>• *Facebook*<br>• Cwynion | **HYSBYSEBU**:<br>• Ymgyrchoedd rhyngweithiol<br>• Ymateb i gynnyrch neu achos<br>• Cysylltu â gwefan, *facebook*, *twitter* ac *apps*. | **GEMAU CYFRIFIADUROL**:<br>• Trwy wahanol ddulliau chwarae gemau a phender-fyniadau unigol<br>• Ar-lein |

© WJEC CBAC Cyf.

**4. 'Dosbarthu yw'r allwedd i lwyddiant.' I ba raddau rydych chi'n cytuno? Cyfeiriwch at eich tri phrif destun yn eich ateb. [30]**

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr am farn – *i ba raddau maen nhw'n cytuno*. Byddwch yn ymatebol i atebion gwahanol yn dibynnu ar y testunau a ddewisir a marciwch ar sail teilyngdod, chwiliwch am gydlyniad dadl. Mae'n dderbyniol defnyddio marchnata testunau fel rhan o drafodaeth am y modd maen nhw wedi cael eu dosbarthu. Mae llawer o ymgeiswyr yn debygol o drafod *ffactorau eraill* sy'n allweddol i lwyddiant eu testunau. Marciwch ar sail teilyngdod. Mae'r siart isod yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut y gall ymgeiswyr ymdrin â gwahanol ddiwydiannau. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn rhestr gyflawn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TELEDU**:<br>Efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at amserlenni fel rhan o ddosbarthu. Mae hynny'n dderbyniol. Efallai y bydd ymgeiswyr hefyd yn dadlau bod ffactorau eraill fel naratif, *genre* ac actorion yr un mor bwysig i lwyddiant. | **RADIO**:<br>Efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at amserlenni fel rhan o ddosbarthu. Mae hynny'n dderbyniol. Efallai y bydd ymgeiswyr hefyd yn dadlau bod ffactorau eraill fel fformat rhaglenni, *genre* a chyflwynwyr yr un mor bwysig i lwyddiant. | **FFILM**:<br>Er mai dosbarthu yw'r allwedd yn aml i lwyddiant ffilm, efallai y bydd ymgeiswyr yn dadlau bod ffactorau eraill fel naratif, *genre* ac apêl sêr yr un mor bwysig. | **CERDDORIAETH**:<br>Gall dosbarthu gael ei ddehongli'n eang yma ac mae trafodaethau am berfformiadau, fideos a rhyddhau cerddoriaeth i gyd yn ddilys. Gall *ffactorau eraill* gynnwys personau sêr a *genre* cerddoriaeth. |
| **PAPURAU NEWYDD**:<br>Mae dosbarthu papurau newydd yn ffactor pwysig yn eu llwyddiant (mewn print ac ar-lein) ond gall ffactorau eraill gynnwys y cynnwys, arddull, hysbysebion a *genre*. | **CYLCHGRONAU**:<br>Mae dosbarthu cylchgronau yn ffactor pwysig yn eu llwyddiant (mewn print ac ar-lein) ond gall ffactorau eraill gynnwys y cynnwys, arddull, hysbysebion a *genre*. | **HYSBYSEBU**:<br>Gall dosbarthu yn achos y diwydiant hysbysebu gael ei drafod yn nhermau lle maen nhw'n cael eu gosod. Gall ffactorau eraill gynnwys y cynnwys, naratif, enwogion, apeliadau seicolegol. | **GEMAU CYFRIFIADUROL**:<br>Mae dosbarthu gemau yn ffactor yn eu llwyddiant ond gall ffactorau eraill gynnwys arddulliau chwarae gemau, llwyfannau, cynnwys, *genre* a naratif. |



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.